# Ysgoloriaeth £250 cyfrwng Cymraeg PDC 2024-25

## Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol yn dyfarnu Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg gwerth £250 i fyfyrwyr cartref y DU sy'n dod i'r Brifysgol am y tro cyntaf yn 2024 sy'n ymrwymo i astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgoloriaeth ar gael pob blwyddyn i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau gradd israddedig ac ôl-raddedig. Mae angen cwblhau o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg cyn derbyn y taliad.

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau am yr ysgoloriaeth gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith.

## Sut i ymgeisio

**Rhaid i ymgeiswyr lenwi Ffurflen Gais Ysgoloriaeth Cyfrwng Cymraeg PDC yn Gymraeg.**

Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u llenwi trwy e-bost: cymraeg@decymru.ac.uk

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Gwener 1 Tachwedd 2024**. Ni fydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Bydd y Brifysgol yn cysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus erbyn **dydd Gwener 8 Tachwedd 2024**.

**Gofynnir i chi e-bostio cymraeg@decymru.ac.uk gydag unrhyw gwestiynau am y broses o ymgeisio am yr ysgoloriaeth.**

## Y broses ddyfarnu

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dewis gan banel beirniadu yn cynnwys staff perthnasol Prifysgol De Cymru.

Bydd y panel beirniadu yn defnyddio'r meini prawf canlynol wrth ystyried Datganiad Cefnogol yr ymgeisydd:

- Brwdfrydedd ac angerdd dros astudio eu maes pwnc dewisol
- Unrhyw brofiad sy'n berthnasol i'r pwnc, gan gynnwys unrhyw weithgareddau perthnasol a wnaethpwyd y tu allan i'r ysgol/coleg
- Brwdfrydedd ac angerdd dros astudio'n rhannol/yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg
- Brwdfrydedd dros astudio ym Mhrifysgol De Cymru
- Sut bydd y cwrs maen nhw wedi'i dewis, y Brifysgol a'r iaith astudio yn eu helpu i gyflawni eu dyheadau ar gyfer y dyfodol

Bydd y panel hefyd yn ystyried safon y sillafu, y gramadeg a'r iaith a ddefnyddir trwy gydol y cais.

## Telerau ac Amodau

**1. Cymhwyster**

I fod yn gymwys i ymgeisio am Ysgoloriaeth £250 Cyfrwng Cymraeg PDC, rhaid i fyfyrwyr fodloni pob un o'r amodau canlynol:

- Wedi ymgeisio am gradd Anrhydedd israddedig neu ôl-raddedig llawn neu ran amser ym Mhrifysgol De Cymru i ddechrau ym mis Medi 2024 neu ym mis Mawrth 2025.

- Ymrwymo i astudio o leiaf 5 credyd o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, ym mhob blwyddyn o astudio.

- Cwblhau ffurflen gais Ysgoloriaeth Cyfrwng Cymraeg PDC yn Gymraeg erbyn **dydd Gwener 1 Tachwedd 2024**.

I fod yn gymwys i dderbyn Ysgoloriaeth Cyfrwng Cymraeg PDC £250 yn llawn, rhaid i ymgeiswyr:

- Ymrestru ar radd Anrhydedd cymwys llawn neu ran amser ym Mhrifysgol De Cymru ym mis Medi 2024 neu ym mis Mawrth 2025.

**2. Taliadau'r Ysgoloriaeth**

- Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei thalu mewn un taliad.

- Fe delir y taliad o £250 ym mis Mai 2025, yn amodol ar gadarnhad bod y myfyriwr wedi cwblhau o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg naill ai yn semester un neu semester dau. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gyda'r staff academaidd perthnasol.

- Os oes gordaliadau'n cael eu gwneud, rhaid i'r derbynwyr eu had-dalu yn llawn.

**3. Trosglwyddo**

- Bydd myfyriwr yn parhau i fod yn gymwys am ysgoloriaeth os ydyw'n trosglwyddo i gwrs gradd cymwys arall.

**4. Terfynu'r ysgoloriaeth**

- Os nad yw myfyriwr yn bodloni'r meini prawf cymhwyster a amlinellir uchod, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i derfynu'r ysgoloriaeth. Os yw myfyriwr yn tynnu allan o'i (h)astudiaethau, neu os oes angen iddi/o dynnu allan, ni fydd unrhyw daliadau pellach yn cael eu gwneud. Bydd yr

ysgoloriaeth yn cael ei therfynu os yw'r myfyriwr ddim wedi cofrestru fel myfyriwr yn y Brifysgol bellach.

**5. Trefniadau talu**

- Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei thalu yn uniongyrchol i gyfrif banc y myfyriwr trwy BACS mewn un ran fel yr amlinellir uchod.

**6. Defnyddio Data**

- Trwy dderbyn yr ysgoloriaeth hon, mae myfyrwyr yn rhoi caniatâd i'r Brifysgol ddefnyddio'u manylion at ddibenion hyrwyddo ac efallai bydd gofyn iddynt ddarparu astudiaeth achos allai gael ei ddefnyddio yng nghyhoeddiadau'r Brifysgol neu ar y wefan.

**Noder:** Mae'r telerau ac amodau hyn yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2024-25. Mae Prifysgol De Cymru'n cadw'r hawl i ddiweddaru'r telerau ac amodau hyn fel bo angen yn y dyfodol.

## Cwestiynau Cyffredin

**Sut ydw i'n ymgeisio?**
Bydd angen i chi ymgeisio am gwrs israddedig neu ôl-raddedig sy'n dechrau ym mis Medi 2024 neu ym mis Mawrth 2025 a llenwi Ffurflen Gais Ysgoloriaeth Cyfrwng Cymraeg PDC, yn Gymraeg, erbyn dydd Gwener 1 Tachwedd 2024. Ni fydd unrhyw geisiadau y'u derbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

**Sut mae'r ysgoloriaeth yn cael ei thalu?**
Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei thalu mewn un taliad. Fe delir y taliad ym mis Mai 2025, yn amodol ar gadarnhad bod y myfyriwr wedi cwblhau o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg naill ai yn Semester un neu Semester dau. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gyda'r staff academaidd perthnasol.

**Beth sy'n digwydd os ydw i'n newid cwrs?**
Bydd myfyriwr yn parhau i fod yn gymwys am ysgoloriaeth os ydyw'n trosglwyddo i gwrs gradd cymwys arall.

**Ydw i hefyd yn gymwys i ymgeisio am ysgoloriaeth arall sy'n cael ei chynnig gan Brifysgol De Cymru?**
Ydych. Mae myfyrwyr hefyd yn gymwys i ymgeisio am, a derbyn, ysgoloriaethau eraill sy'n cael eu darparu gan Brifysgol De Cymru. Fodd bynnag dim ond un ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg byddwch yn ei dderbyn gan y Brifysgol.

**Ydw i hefyd yn gymwys i ymgeisio am ysgoloriaeth sy'n cael ei chynnig gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol?**
Ydych. Mae myfyrwyr hefyd yn gymwys i ymgeisio am, a derbyn, ysgoloriaethau sy'n cael eu darparu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Oes hawl gennyf apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ynghylch fy nghymhwysedd?**
Mae gan bob myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wneir gan Dîm Cyngor Ariannol Myfyrwyr ynghylch eu cymhwysedd ar gyfer Ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg PDC. Ceir manylion llawn ynghylch gweithdrefnau apelio ar:
https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid/proses-apelio-ysgoloriaeth-bwrsariaeth/

Gofynnir i chi e-bostio cymraeg@decymru.ac.uk gydag unrhyw gwestiynau am y broses o ymgeisio am yr ysgoloriaeth.